

## UNED : Y FUWCH EIDION – RHEOLI GLASWELLTIR

### MYFYRWYR

#### CYFLWYNIAD

Mae'n bosib mai glaswellt ydi'r porthiant rhataf sydd ar gael - ffactor allweddol mewn systemau gwartheg eidion, lle mae cadw costau i lawr yn un o'r ffactorau pwysicaf i wneud elw. Mae argaeledd ac ansawdd porfa yn medru amrywio llawer, ac mae rheolaeth dda ohoni yn hanfodol i fanteisio'n llawn ar ei photensial.

#### POTENSIAL GLASWELLT

Gall porfa sy'n cael ei rheoli'n dda gwrdd ag anghenion maethol gwartheg eidion heb orfod defnyddio porthiannau amgen na phrynu porthiannau. Dim ond yn y rhannau o'r wlad sydd â thywydd mwyn, a rheolaeth ofalus yn ystod y cyfnod diwedd haf hyd at fisoedd y gwanwyn, y gall porfa ynddo'i hun fod yn ddigonol. Ond gyfuno pori â system silwair neu system wair effeithiol, gellir diwallu anghenion y fuwch drwy'r flwyddyn. Fodd bynnag, rhaid cadw llygad ar y costau, yn enwedig gwneud silwair, ac ystyried porthiant a phorfwyd atodol, lle mae'n addas.

#### MATHAU O DIROEDD PORI

**Glaswelltau** - mae'r mwyafrif o'r buchesi sugno i'w cael mewn rhannau o'r wlad megis yr ucheldir sy'n gysylltiedig â thiroedd pori heb ei wella neu, ar y gorau, diroedd pori parhaol neu diroedd wedi eu gwella'n rhannol. Yn gyffredinol bydd y gwartheg wedi eu stocio'n weddol helaeth ac yn magu lloi mewn amodau eithaf garw, cyn bod y lloi sydd wedi eu diddyfnu'n mynd dan do neu'n cael eu symud i diroedd pori mwy cynhyrchiol. Bydd gwartheg sugno'n ymateb i statws maethol gwell tir pori sydd wedi ei ail-hadu, yn enwedig bridiau anfredorol a chroesfridiau.

**Codlysiâu** – gall meillion gwyn chwarae rôl bwysig, gan ei bod hi'n anodd cyfiawnhau defnyddio meintiau mawr o wrtaith nitrogen.

#### CYNNAL A CHADW A GWELLA TIROEDD PORI

Ail-hadu – rhoi cyfle i

- Wella ansawdd a blasusrwydd porfa
- Ddefnyddio llai o wrtaith drwy gyflwyno meillion

Er yn gostus, gall y buddsoddiad ddwyn ffrwyth a gellir cynnwys ail-hadu fel rhan o raglen cnydio gyda phorfwydydd e.e. cêl ar gyfer porthiant allan yn y gaeaf neu rawnfwydydd ar gyfer tyfu silwair cyflym.

Mae talu sylw i

- Ddraeniad a chywasgiad pridd
- Ffrwythlondeb pridd
- Bwysedd, amllder a thymoroleddd pori
- Reoli chwyn

yn gallu dod â gwelliannau dramatig mewn cynhyrchedd porfa dros amser.

#### TAIL/DOM A GWRTAITH

Tail/Dom – rhaid gwneud y defnydd gorau posibl o unrhyw dail/dom neu slyri a gynhyrchir ar y daliad, a rhaid cadw at unrhyw ddeddfwriaeth a Chod Ymarfer Da er mwyn:

- Targeddu priddoedd diffygiol a chaeau silwair neu wair

Gwrtaith – rhaid ei ddefnyddio i wneud yn iawn am unrhyw ddiffygion yn y pridd ac annog tyfiant ar adegau allweddol e.e. gwanwyn neu ddiwedd haf, a lle bynnag posibl, i ategu gyda meillion.

#### PORI

Mae'r rhan fwyaf o'r gwartheg sugno'n cael eu rheoli drwy bori parhaus, yn aml gyda defaid pan ellir manteisio ar fuddion pori cymysg. Ond pan fydd dwysedd stocio'r gwartheg yn uwch neu pan fydd y glaswellt wedi ei ddogni, gall pori cylchdroadol weithio'n dda.

Uchder glaswellt – uchder tir pori yw'r ffordd orau o gael y cyfaddawd gorau rhwng perfformiad anifail a thyfiant a'r defnydd o dir pori

- Uchder yn rhy isel
  - Cymeriant isel - cynnyrch llaeth is (tyfiant lloi'n wael), colli cyflwr corffol (dylai gwartheg wella'u cyflwr ar laswellt yr haf)
  - Tyfiant tir pori'n llai
- Uchder yn rhy uchel
  - Gwastraff porfa
  - Perfformiad anifail gwael yng nghanol a diwedd yr haf gan fod ansawdd y gwastraff porfa yn dirywio ac yn atal tyfiant ffres

**Targed uchderau tir pori (cm) ar gyfer gwartheg sugno sy'n pori'n barhaus**

Gwartheg a lloi	7-9
Gwartheg sych	5-7

## GWAIR NEU SILWAIR

Dylai gwair neu silwair o ansawdd cymedrol fod yn ddigon da ar gyfer y gwartheg i gyd ar wahân i'r gwartheg sugno sydd newydd loia. Dylai'r pwyslais fod ar gynnyrch uchel a chynhyrchu digon o silwair i barhau drwy'r gaeaf. Rhaid parhau i dalu sylw i fanylion er mwyn lleihau gwastraff a chynhyrchu porthiant blasus i sicrhau cymeriant uchel.

## CASGLIAD

- Mae glaswelltir sydd wedi ei reoli'n dda yn cwrdd ag anghenion maethol y fuwch eidion yn hawdd, a does dim angen porthiant amgen na phorthiant wedi ei brynu.
- Mae'r mwyafrif o'r buchesi sugno i'w cael mewn rhannau o'r wlad megis yr ucheldir sy'n gysylltiedig â thiroedd pori heb ei wella neu ar y gorau diroedd pori parhaol neu diroedd wedi eu gwella'n rhannol.
- Gall meillion gwyn chwarae rôl bwysig gan ei bod hi'n anodd cyfiawnhau defnyddio meintiau mawr o wrtaith nitrogen.
- Dylid gwneud y defnydd gorau o'r tail/dom neu'r slyri a gynhyrchir yn y daliad a defnyddio gwrrtaith i ategu'r rhain.
- Mae'r rhan fwyaf o'r gwartheg sugno'n cael eu rheoli drwy bori parhaus, ond pan fydd dwysedd stocio'r gwartheg yn uwch neu pan fydd y borfa wedi ei dogni, gall pori cylchdroadol weithio'n dda. Uchder porfa yw'r ffordd orau o gael y cyfaddawd gorau rhwng perfformiad anifail a thyfiant a defnydd o diroedd pori
- Dylai gwair neu silwair o ansawdd cymedrol fod yn ddigon da ar gyfer y gwartheg i gyd ar wahân i'r gwartheg sugno sydd wedi lloia. Dylai'r pwyslais fod ar gynnyrch uchel a chynhyrchu digon o silwair i barhau drwy'r gaeaf.

## FFYNONELLAU GWYBODAETH

HCC (2007) Gwneud y Gorau o'ch Buchod Sugno

HCC (2008) Rheoli Glaswellt